**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Gwynedd y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Gwynedd wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Gwynedd felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Gwynedd ar 13 Hydref 2010, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Gwynedd yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:** (kenrobinson@gwynedd.gov.uk) 01286 679888

**Enw (Clerc CYSAG): Ken Robinson.**

**Cyfeiriad: Swyddfa Addysg Ardal Arfon, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:** **YSGOL ABERSOCH**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn galw i gof yn dda, yn hyfedrus wrth ddefnyddio medrau meddwl, yn caffael gwybodaeth yn dda ac yn cymhwyso medrau i sefyllfaoedd newydd.
- Mae dulliau addysgu newydd wedi eu datblygu yn sgil Cwricwlwm 2008 ac mae'r disgyblion bellach yn chwarae rhan bwysig yn y Cynllunio.
- Mae gan ddisgyblion CA2 wybodaeth a dealltwriaeth dda o arferion a dathliadau Cristnogaeth a hefyd rhai o grefyddau eraill y byd.
- Adnabyddir cyfleoedd o fewn y cwricwlwm ac o fewn trefniadau'r ysgol i herio stereoteipiau.
- Mae'r plant yn cyrraedd safonau da yn eu medrau llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn eu gwaith rhifedd ac amlygir hyn yn eu dealltwriaeth o waith Addysg Grefyddol.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA1 yn datblygu medrau darllen da tra bod disgyblion Bl 3 yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol a hyderus a chânt gyfleoedd i ymarfer eu darllen yn y gweithgareddau.
- Mae'r disgyblion, ar draws yr ysgol, yn ysgrifennu i safon dda yn ôl lefel eu gallu ac oedran, mewn gwahanol gyd-destunau yn y Gymraeg. Mae disgyblion Bl 3 yn datblygu ysgrifennu yn y Saesneg i safon foddhaol.
- Mae plant B2 a B3 yn ddefnyddwyr hyderus ar TGCh ac mae hyn yn cefnogi dysgu agweddau o Addysg Grefyddol ond mae lle i herio disgyblion Y Cyfnod Sylfaen ymhellach.

**Materion i gael sylw**

- Cyflwyno gweithgareddau a phrofiadau i blant Y Cyfnod Sylfaen i ymateb yn bersonol i sefyllfaoedd moesol dychmygol gan roi rhesymau dros y penderfyniadau a wneir.
- Gwneud defnydd o storiau i godi cwestiynau ynghylch pam y mae rhai pethau'n arbennig.
- Mireinio'r cynllunio ar y cyd gyda'r dysgwyr
- datblygu rhai sgiliau ymhellach yn dilyn hunan arfarniadau o waith y dysgwyr, e.e.ymchwilio annibynnol

| Rhagorol | | Da | ✓ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae cymuned yr ysgol hon yn ymrwymedig i wella safonau addysg grefyddol.

- O fod wedi arsylwi gwersi yn ; canfyddwyd fod yr addysgu'n dda neu'n well ar draws yr ysgol.
- Amlygwyd yn y gwersi fod disgyblion y ddau ddosbarth yn siarad yn hyderus am eu profiadau eu hunain ac agweddau ar grefydd. Mae hyn yn arwain at iddynt fod yn datblygu i ofyn cwestiynau a chynnig atebion hefyd. Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cwestiynu da.
- Mae athrawes Blwyddyn 3 yn manteisio ar bob cyfle i adolygu'r rhaglenni astudio er mwyn eu gwneud yn berthnasol i'r dysgwyr.
- Maent yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn hyderus, gyda'r goreuon yn cyfrannu'n estynedig mewn trafodaethau grŵp erbyn B2 a 3.
- Defnyddia'r disgyblion eu medrau dysgu a meddwl yn effeithiol iawn wrth ystyried cwestiynau sylfaenol am grefydd a bywyd, megis perthynas pobl a'i gilydd
- Canolbwyntir ar sgiliau mewn amrywiol gyd destunau o fewn addysg grefyddol .
- Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion leisio barn i fynegi eu safbwynt a'u gwerthoedd personol.
- Canfyddir fod gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o Gymru yn datblygu yn dda ac maent yn gwerthfawrogi gwerth ac effaith treftadaeth Gristnogol gyfoethog.
- Fel rhan o gynlluniau Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Daearyddiaeth, datblygir gwybodaeth y plant am wahanol swyddi a gweithleoedd yn y gymuned.
- Sefydlwyd perthynas gref iawn ag arweinwyr yn y gymuned e.e. rheithor, gweinidog, Swyddog Cyswllt yr Heddlu, Arweinydd plant a phobl ifanc ac mae hyn wedi cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol ac i baratoi disgyblion ar gyfer profiadau bywyd.
- Amlygir gwahaniaethu yng nghynlluniau gwaith yr ysgol a gwneir defnydd da o gymhorthydd er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mae'r rhaglen DPP yn sicrhau hyfforddiant perthnasol i hyrwyddo dysgu ac addysgu ac hefyd yn diwallu anghenion a blaenoriaethau'r CDY.
- Y dosbarthiadau wedi eu trefnu fel eu bod yn galluogi'r athrawon i ryngweithio gyda'r disgyblion mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol.
- Mae portfolio addysg grefyddol yn cynnwys samplau o waith sydd wedi'u dadansoddi a'u lefelu. .
- Caiff Maes Datblygiad Personol a Chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen ei ddatblygu'n dda. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion a'i gilydd.
- Trafodir cwestiynau sylfaenol bywyd ac felly ennynir chwilfrydedd mewn crefydd yn gyffredinol.
- Rhoddir bri i onestrwydd a pharch i egwyddorion gorau bywyd.
- Cynhelir sesiynau Amser Cylch ym mhob dosbarth pan sicrheir cyfleoedd rheolaidd i fyfyrio, holi a rhyfeddu.
- Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol.
- Mae'r staff yn brofiadol ac yn cynnig ystod o gymwysterau a diddordebau.
- Mae yma ddigon o ddeunyddiau dysgu o ansawdd da.
- Mae ym mhob dosbarth amgylchedd ddysgu ddeniadol a symbylus o'r safon uchaf.

**Materion i gael sylw**

- Ymgyfarwyddo a dogfen Addysg grefyddol – Canllawiau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. (Mawrth 2011)
- Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i ddatrys problemau .
- Mwy o dasgau creadigol e.e. C.A.2 - Cynllunio gwneud poster i gyfleu gwybodaeth.
- Parhau i sicrhau ystod o adnoddau priodol fel y gall y disgyblion wneud ymchwil dan gyfarwyddyd.
- Rhaid gofalu bob amser rhag stereoteipio.
- Canolbwyntir ar gydweithio mewn grwpiau, gyda'r athrawon yn hwyluso'r dysgu

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

## Addoli ar y Cyd

### Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?

| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy /** | **Nac ydy** |
|---|---|---|

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae yr ysgol yn cynnal addoliad ar y cyd yn foreol ac mae pob disgybl cyfredol yn bresennol .
- Caiff naws arbennig ei greu yn y weithred o addoli ar y cyd ac mae'r holl ddisgyblion yn parchu naws y sesiynau .
- Mae'r weithred o gyd addoli yn chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.
- Mae'r weithred o gyd addoli fel ysgol yn cyfrannu tuag at sicrhau ei bod yn gymuned drefnus a gofalgar. Mae yma ddisgwyliadau a rheolau a ddeallir yn glir gan bawb.
- Mae cyfleoedd o fewn profiadau cyd-addoli i blant adnabod y gwerthoedd sy'n bwysig yn eu bywyd bob dydd megis parch tuag at eu hunain, eraill a'u hamgylchedd.
- Rhoddir cyfle i ddisgyblion baratoi, cyflwyno a chymryd rhan weithredol yn y gwasanaethau fel eu bod yn teimlo'n rhan o gymdeithas agos a diogel yr ysgol.
- Mae y gwasanaethau yn adlewyrchu seiliau Cristnogol yr ysgol.
- Dilynir amserlen flynyddol sydd yn ymwneud â'r gwyliau Cristnogol, themâu'r dosbarthiadau , gwyliau arbennig a phobl arbennig yr ardal, y wlad a'r byd.
- Gwahoddir arweinyddion crefyddol yr ardal a chyfeillion yr ysgol i'r gwasanaethau yn fisol a threfnir ymweliadau i wasanaethau Eglwys y Plwyf yn achlysurol.
- Annogir datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol ac yn arbennig prif rinweddau Cristnogol, sef caredigrwydd, cariad, tosturi, cyfiawnder a pharch at ei gilydd.
- Rhoddir pwyslais ar ddatblygu parch tuag at grefyddau eraill a deall bod gan bobl wahanol ddewisiadau, safbwyntiau a chredoau.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Creu cornel fyfyrio a'i chysylltu a'r addoli ar y cyd.

| **Rhagorol** | ✓ | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Mrs Laurina Hughes (Pennaeth)

Dydddiad: Mai 2011